



DIM EMBARGO: I'W GYHOEDDI AR UNWAITH

DATGANIAD I'R WASG

19 Ebrill 2017

MENTER BRO MORGANNWG YN ENNILL CEFNOGAETH WRTH GRONFA DREFTADAETH Y LOTERI

www.menterbromorgannwg.cymru

Mae Menter Bro Morgannwg wedi derbyn £10,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer prosiect cyffrous, 'lolo ar Daith'; prosiect a fydd yn olrhain bywyd a chyfraniad un o ffigyrau hanesyddol mwyaf eiconig Bro Morgannwg, sef lolo Morgannwg.

Bydd y prosiect yn galluogi pobl o bob oed ddod i wybod mwy am gyfraniadau lolo Morgannwg – i Fro Morgannwg, Cymru a thu hwnt. Byddwn yn cyd-weithio gyda Mewn Cymeriad (www.mewncymeriad.cymru) i greu sioe deuluol i'w berfformio yn Gŵyl Fach y Fro 2017, gweithdy sgriptio gyda disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a sioe stand-up i oedolion yn rhan o raglen Gigs Bach y Fro, a bydd y prosiect hefyd yn cynnwys cyfres o sesiynau ymchwil, arddangosfeydd a darlithoedd.

Roedd lolo yn enedigol o Lancarfan, ar gyffiniau'r Bontfaen, ac er iddo dreulio cyfnodau o'i fywyd yn teithio ar hyd a lled Cymru, Caint a Llundain, roedd ei ardal enedigol yn dal i fod yn bwysig iawn iddo a bu ei gartref parhaol yn Nhrefflemin tan fu farw. Mae cofeb wedi ei osod y tu allan i'r adeilad lle bu lolo'n rhedeg siop groser (sydd nawr yn siop goffi Costa yn y Bontfaen), ac mae'r ysgol Gymraeg lleol wedi ei enwi ar ei ôl. Roedd yn falch iawn o'r ffaith fod ei wreiddiau yn ddwfn ym Morgannwg, a chyfranodd ei ardal frodorol yn fawr at ei weledigaeth. Dyma bwnc unigryw sy'n cynnig nifer o haenau diddorol i'w hadrodd o fewn y prosiect.

Dan arweiniad Dr Dylan Foster Evans, mae'r prosiect yn ddibynnol ar waith ymchwil gan aelodau o'r gymuned, ac fe fydd y grŵp ymchwil yn cyfrannu at y broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer byrddau arddangos, taflenni gwybodaeth a Chasgliad y Werin.

Wrth sôn am y dyfarniad, dywedodd Siân Lewis (Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg), "Rydym wrth ein bodd i fod wedi derbyn cefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac yn hyderus y bydd y prosiect yn cynnig cyfleoedd unigryw i oedolion, plant a phobl ifanc lleol gymryd rhan a dysgu mwy am gyfraniad sylweddol lolo Morgannwg i ddiwylliant a threftadaeth Cymraeg Bro Morgannwg a Chymru."

Os oes diddordeb gyda chi i wybod mwy am y prosiect a'r cyfleoedd sydd ar gael i chi gymryd rhan, cysylltwch gyda Ffion Rhisiart ar 029 2068 9888 / ffion@menterbromorgannwg.cymru

Diwedd

Nodiadau

Ynglŷn â Menter Bro Morgannwg

- Prif nod Menter Bro Morgannwg yw i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Y Fro, a chreu cyfleoedd i drigolion y Sir ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau gwaith a muriau Ysgol.
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron i 11% o boblogaeth y Sir yn siaradwyr Cymraeg (13,189).
- Mae'r prosiect hwn yn rhan o weledigaeth ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ynglŷn â Chronfa Dreftadaeth y Loteri

O'r archaeoleg o dan ein traed i'r parciau hanesyddol ac adeiladau rydym yn eu caru, o atgofion a chasgliadau gwerthfawr i fywyd gwyllt prin, rydym yn defnyddio arian chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i helpu pobl ledled y DU i archwilio, i fwynhau ac i warchod y treftadaeth sy'n bwysig iddyn nhw. www.hlf.org.uk.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sian Lewis (Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg):
sian@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888